



FLVC
Flintshire Local Voluntary Council
CGLISff
Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir Fflint



**Cefnogi, Hyrwyddo
a Datblygu'r Sector
Gwirfoddol a Chymunedol**

**Adroddiad Effaith Blynnyddol
2025/26**

EIN HYMDDIRIEDOLWYR

o fis Ebrill 2025

Peter Agnew Cadeirydd

Tim Byram

Marjorie Thomson

John Hatton

David Wisinger

Caryl Jones

Karen Armstrong

Amanda Lonsdale

Ian McDermott

Natasha Wait

Pip Perry

Barbara Roberts



Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3301204
Rhif Elusen Gofrestredig 1062644

EIN STAFF

o fis Ebrill 2025

Ann Woods Prif Swyddog

Tessa Willow

Rheolwr Datblygu'r Trydydd Sector (Gwasanaethau Craidd)

Katherine Hussey

Rheolwr Datblygu'r Trydydd Sector (Iechyd a Gofal Cymdeithasol)

Tîm Gweinyddol

Nicola Valentine Uwch Weinyddwr

Geraint Jones Gweinyddwr

Canolfan Gwirfoddolwyr

Emily Morgan

Swyddog Datblygu'r Gwirfoddoli

Lyn Ganderton

Swyddog Datblygu'r Gwirfoddoli

Cyllid a Llywodraethiant

Heather Hicks

Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector (Cyllid)

Shaun Darlington

Swyddog Datblygu'r Trydydd Sector (Llywodraethiant)

Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Charlotte Anderton Arweinydd Tîm Rhagnodi Cymdeithasol

Dafydd Gwynedd Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Stephanie Jones Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Lewis Williams Rhagnodydd Cymdeithasol (SPoA)

Joanne Overton-Jones Rhagnodydd Cymdeithasol

(Hwb Cymorth Cynnar)

ADRODDIAD CADEIRYDD CGLISFF

Ers dros 27 mlynedd bellach, mae Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint (CGLISFF) wedi bod wrthi'n hyrwyddo, datblygu a chefnogi gweithgarwch gwirfoddol a chymunedol. Gan dderbyn cefnogaeth gan Fwrdd Ymddiriedolwyr ymroddgar, mae ein tîm staff wedi cwblhau blwyddyn arall yn ymateb i anghenion cymunedol y Trydydd Sector – cefnogi grwpiau cymunedol gyda chynnal eu sefydliadau a chysylltu trigolion Sir y Fflint gyda'r cymorth a'r gweithgareddau y mae'r grwpiau hynny'n eu cynnig. Mae ein sefydliad yn un o rwydwaith o 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) ar hyd a lled Cymru. Daw ein prif gyllid drwy gytundeb seilwaith gyda Llywodraeth Cymru, ond rydym hefyd yn dibynnu ar gyllid gan Gyngor Sir y Fflint a nifer o gyrff cenedlaethol a lleol eraill, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Teuluoedd yn Gyntaf. Yn wir, mae pob Cyngor Gwirfoddol Sirol yn cynnig pecyn unigryw i gefnogi y Trydydd Sector ac ymhlith ein tîm o 14 o weithwyr, mae gennym dimau ymroddedig sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:

- Rhagnodi Cymdeithasol – cydweithio gyda gwasanaethau iechyd a gweithwyr proffesiynol / mudiadau eraill i gysylltu trigolion yn Sir y Fflint gyda gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol.
- Gwirfoddoli – Hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi gwirfoddolwyr i gynnal cynaliadwyedd y Trydydd Sector.
- Llywodraethu a Chyllid – Cynnig cyngor sydd mawr ei angen ar lywodraethu a chodi arian i'r 2000+ o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol yn Sir y Fflint.



Yn 2025/26 buom yn canolbwyntio mwy ar ein cynnig hyfforddiant i'r sector a sicrhau ein bod yn dangos tystiolaeth o effaith ein gwaith yn fanylach. Aethom ati i gefnogi'r rhaglen brawf ar gyfer mesur effaith yn fwy ledled Cefnogi Trydydd Sector Cymru, ac rydym wedi datblygu ein system bwrpasol ein hunain i sicrhau ein bod yn dysgu am yr hyn sy'n effeithiol a lle efallai y bydd angen inni newid ymarfer.

Fel rhan o'n cynnig hyfforddiant, rydym wedi darparu cymorth arbenigol ar gyfer cwblhau ceisiadau cyllid a Rheoli a Chefnogi Gwirfoddolwyr. At hyn, fe wnaethom elwa o gyfleoedd dysgu ar y cyd gydag ein Cynghorau Gwirfoddol Sirol cyfagos, gan gynnal Gweithdy Ymddiriedolwyr ym mis Mawrth 2026 gyda'r aelodau Bwrdd o Gynghorau Gwirfoddol Sirol Wrecsam (AVOW) a Sir Ddinbych (CGGSDd).

Thema ar gyfer ein Cynhadledd Trydydd Sector yn 2026 oedd ein rôl yn dylanwadu Datblygiad Strategol y Trydydd Sector mewn Gwasanaethau Cyhoeddus – gan sicrhau bod cymunedau'n gallu rhannu eu barn a'u profiad byw gydag ystafell fwrdd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Fel Bwrdd, rydym yma i sicrhau bod CGLISFF yn cyfrannu tuag at ddatblygiad gwasanaethau'r Trydydd Sector yn y ffordd fwyaf effeithiol. Ein diolch i'r tîm staff am eu diwydrwydd a'u creadigrwydd wrth gefnogi'r gwirfoddolwyr, grwpiau cymunedol a dinasyddion lleol sy'n gwneud gwahaniaeth mor anhygoel i'n cymunedau.

Peter Agnew
Cadeirydd

YMGYSYLLTU A DYLANWADU

Mae CGLISFF yn parhau i chwarae rhan allweddol yn natblygiad strategol Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'n fraind gan Gynghorau Gwirfoddol Sirol weithredu fel llais y Sector Gwirfoddol a Chymunedol.

Fel rhan o'n gwaith i gefnogi, hyrwyddo a datblygu gweithgarwch y Trydydd Sector, rydym yn cyflawni rôl allweddol ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam – sydd yn gyfrifol am gynllunio Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer holl drigolion y ddwy sir, fel gofyniady Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn cydweithio'n agos gyda Chyngor Sir y Fflint i gysylltu gwaith grwpiau cymunedol a gwirfoddol gyda gwaith ein cydweithwyr yn y cyngor, er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i drigolion.

Ar hyn o bryd mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cydweithio gyda holl Gynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS) Gogledd Cymru i ddatblygu fframwaith wedi'i adolygu ar gyfer gweithio gyda'r Trydydd Sector ledled y rhanbarth.

At hyn, mae Cytundeb Sir y Fflint yn cyfarfod yn rheolaidd sy'n fodd i gynnal sgysrsiau agored a gonest ynghylch yr heriau a'r cyfleoedd y mae'r sector gwirfoddol ac ein cydweithwyr iechyd ac awdurdod lleol yn eu hwynebu.

Un o'r agweddau allweddol yn ein gwaith Ymgysylltu a Dylanwadu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oedd sicrhau bod llais y sector a phrofiadau trigolion Sir y Fflint yn rhan flaenllaw o'r gwaith Cynllunio Gwasanaethau Cyhoeddus.



Penllanw hyn oedd ein **Cynhadledd Trydydd Sector 2026**.

Ar Fawrth y 10fed, fe wnaethom gynnal digwyddiad (ar y thema Iechyd a Gofal Cymdeithasol) yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug er mwyn clywed barn trigolion Sir y Fflint sy'n derbyn cymorth gan grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol, er mwyn datblygu ymgynghoriad ar gyfer y rownd nesaf o Gynlluniau Llesiant ar gyfer ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam.



Mae'n wych cael digwyddiad sy'n teimlo ei fod wedi'i gyd-gynhyrchu'n wirioneddol, yn hytrach na chefnogi naratif sydd wedi'i bennu ymlaen llaw



Daeth cymysgedd o ddarparwyr gwasanaeth statudol a Thrydydd Sector i'r digwyddiad. Cafwyd cyflwyniadau byr, pwerus ac roedd pawb yn eu gwerthfawrogi ac yn eu cymeradwyo'n fawr.

Dyma rai o'r themâu:

- cymorth i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio'n droseddol
- yr unigrwydd a'r ynysigrwydd y mae gofalmwr yn eu wynebu
- tlodi yn y gwaith a heriau cymhleth digartrefedd ymhlith pobl ifanc.
- problemau iechyd meddwl cymhleth a chymorth gan staff a gwirfoddolwyr sy'n 'byw' gyda phrofiad o drawma
- effaith troseddu sy'n seiliedig ar hil
- y theatr a'r celfyddydau fel man diogel ar gyfer archwilio creadigol a chymorth
- gwasanaethau rhagnodi creadigol – cefnogi trigolion bregus Sir y Fflint i fanteisio ar gymorth gan y sector gwirfoddol a chymunedol



Y cyfle i gysylltu gyda gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cynnig cymorth ymarferol ac iechyd meddwl yn y 3ydd sector, i ddod yn ymwybodol o bwy sy'n cynnig pa wasanaeth, ac i rannu syniadau/myfyrdodau ac awgrymiadau



Mae'r negeseuon allweddol o'r diwrnod yn llywio cynlluniau Llesiant y dyfodol ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus ac ers hynny mae CGLISFF wedi'u gwahodd i ymuno â gweithgor cenedlaethol i sicrhau bod deddfwriaeth yn ysgogi mwy o newid o ran sut mae partneriaid y sector cyhoeddus yn cydweithio gyda'r sector gwirfoddol.

Bydd y gweithgor yn myfyrio am y canfyddiadau canlynol:

- diffyg cydnabyddiaeth o gyfraniad y sector gwirfoddol tuag at y nodau llesiant, gan fudiadau'r sector cyhoeddus y mae'r ddeddfwriaeth yn berthnasol iddyn nhw
- partneriaid y sector gwirfoddol ddim ynghlwm â sgysiau strategol ynghylch darpariaeth gwasanaeth yn ddigon buan



BETH OEDD FWYAF DEFNYDDIOL?

Rhoi llais i'r trydydd sector

Straeon go iawn: clywed mwy am wahanol wasanaethau

Cymuned o bobl o'r un anian yn rhannu straeon gwirioneddol



Datblygiadau allweddol eraill

- Rydym wedi cydweithio gyda phartneriaid Cefnogi Trydydd Sector Cymru ar y Strategaeth Dysgu a Datblygu cenedlaethol, y ffrwd waith Effaith a'r gymuned ymarfer Diogelu
- Rydym yn cynrychioli Cynghorau Gwirfoddol Sirol Gogledd Cymru ar y Fforwm Gwydnwch Lleol (Cynllunio Brys) ac rydym yn mynychu is-grŵp Cymorth Dyngarol a Gwirfoddoli Gogledd Cymru.
- Rydym yn cwrdd â grwpiau cymunedol a mudiadau elusennol newydd a phresennol yn rheolaidd i'w cysylltu â'r sector ehangach a phartneriaid statudol.
- Rydym wedi cynrychioli'r Trydydd Sector a rhagnodi cymdeithasol mewn cyfarfodydd Clwstwr Meddygon Teulu, Sir y Fflint sy'n dwyn ynghyd yr holl wasanaethau lleol sydd ynghlwm ag iechyd a gofal.

GWASANAETHAU CRAIDD

Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru yn rhwydwaith o fudiadau cymorth ar gyfer y sector gwirfoddol cyfan yng Nghymru. Ymhlith yr aelodau mae'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CGS) a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Rydym yn cydweithio gyda dinasyddion, gwirfoddolwyr a grwpiau'r sector gwirfoddol i nodi a mynd i'r afael â'r hyn sydd o bwys iddyn nhw. Mae ein gweithgareddau craidd i gryfhau'r sector gwirfoddol a gwirfoddoli yn canolbwyntio ar:

- Galluogi a chefnogi
- Gweithredu fel ysgogwr
- Ymgysylltu a dylanwadu



"Mae'r trydydd sector wedi bod wrth galon newid cadarnhaol bob amser a gydag ein hinsawdd heriol sydd ohoni, mae rolau ein mudiadau amrywiol yn bwysicach nag erioed. Mae'n rhaid inni eirioli dros eraill a chefnogi ein gilydd i barhau i gyflawni."

@WCVACymru #gofod3

Jane Hutt, Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yn 2025



I gyflawni ein nod ar y cyd rydym yn cydweithio gyda phartneriaid allweddol eraill ledled y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus, busnes, ymchwil ac arianwyr. Mae gennym bedwar piler o weithgarwch sy'n rhan o'n cynnig cyffredinol, sef:

- Gwirfoddoli
- Llywodraethu da
- Cyllid cynaliadwy
- Ymgysylltu a dylanwadu

Mae ein gwaith yn canolbwyntio'n eang ar y themâu cyffredin canlynol:

- Gwybodaeth a chynghori
- Dysgu a datblygu
- Rhwydweithio a chyfathrebu
- Llywio, dylanwadu a meithrin cyfalaf cymdeithasol a gwytnwch y sector
- Codi proffil y sector

1



Rydym yn rhoi pobl mewn cysylltiad â chysylltiadau defnyddiol, e.e. eraill sy'n gwneud gwaith tebyg, a gallant fod yn "fwrdd sain" ar gyfer syniadau a chynlluniau.

2



Rydym yn helpu gyda chyfansoddiadau, agweddau cyfreithiol, cofrestru elusennau, polisïau, yswiriant, cyfrifon banc, dod o hyd i ymddiriedolwyr a mwy

3



Rydym yn cynghori ar godi arian, dod o hyd i grantiau, pennu cyllideb, allbynnau a deilliannau, monitro, profi angen

4



Rydym yn darparu cefnogaeth i grwpiau i recriwtio gwirfoddolwyr a hyfforddiant ar sut i ofalu amdanynt; rydym yn helpu pobl i ddod o hyd i'r rôl wirfoddoli gywir iddynt.

5



Rydym yn helpu grwpiau i brofi'r gwahaniaeth maen nhw'n ei wneud a dangos i eraill yr effaith y mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn ei gael ar gymunedau

Cyflawniadau yn 2025/26



Bu i swyddogion datblygu CGFLISFF gefnogi **268** grŵp / mudiad gyda chynghor a gwybodaeth, gydag un rhan o dair ohonyn nhw hefyd yn cael eu cyfeirio at fudiadau arbenigol. Dangosodd ymatebion i'n harolwg adborth yn dilyn derbyn cymorth bod 100% o'r ymatebwyr yn dweud bod y gefnogaeth gan CGFLISFF wedi bod yn ddefnyddiol.



Bu i dîm y Ganolfan Wirfoddoli gefnogi **115** o bobl i achub ar gyfleoedd gwirfoddoli a threialu modiwl hyfforddiant ar Reoli Gwirfoddolwyr.



Bu i 163 o bobl gymryd rhan mewn hyfforddiant wedi'i gyflawni neu ei drefnu gan CGFLISFF, gyda **98%** ohonyn nhw'n sgorio'r hyfforddiant yn ardderchog / da iawn.

Croesawodd digwyddiadau a fforymau eraill **527** o bobl i gymryd rhan drwy gydol y flwyddyn gyda **97%** ohonyn nhw'n eu sgorio'n dda iawn neu'n ardderchog.

Gwirfoddoli

Yn 2025/26 bu inni hwyluso a chymryd rhan mewn 18 digwyddiad i gefnogi pobl ifanc i roi cynnig ar wirfoddoli. Ar y cyd â'n cydweithwyr yng Ngholeg Cambria, bu inni gynnal dau ddigwyddiad gwirfoddoli Bagloriaeth Cymru, yn ogystal â sgysiau i grwpiau penodol o fyfyrwyr a chymryd rhan mewn pedair Ffair y Glas. Gwahoddwyd oddeutu 600 o unigolion (i gyd) i gwrdd gyda staff CGFLISFF, sgwrsio am waith gwirfoddol a dysgu sut y gall gwirfoddoli helpu gyda'u taith dysgu a hybu eu hyder. Daeth 20 o fudiadau trydydd sector i ddigwyddiadau gwirfoddoli Bagloriaeth Cymru yn 2025/26, gyda sawl un yn mynd i fwy nac un digwyddiad a rhestr aros ar waith rhag ofn i bobl ganslo, wrth i fwyfwy ddysgu am effeithiolrwydd y digwyddiadau hyn i ymgysylltu â phobl ifanc fel gwirfoddolwyr.



'Tîm cyfeillgar a chymwynasgar dros ben, sydd wir yn gofalu am ein hanghenion wrth gefnogi ein gwirfoddolwyr'



Cyllid a Llywodraethu

Yn 2025/26 bu i 94% o ymatebwyr yr arolwg Cyllid a Llywodraethu ddisgrifio'r cymorth roedden nhw wedi'i dderbyn yn naill ai'n Dda iawn neu'n Ardderchog



Cymorth ardderchog pryd bynnag y byddaf wedi gofyn. Yn gwrando ar yr hyn sydd ei angen arnaf ac yn fy nghefnogi bob amser



Cefnogodd swyddogion datblygu CGFLISFF fudiadau lleol i ennill **£2,065,000** o gyllid o amrywiaeth o ffynonellau gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gymunedol Postcode, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Sefydliad Gymunedol Cymru, Cronfa Budd Cymunedol Parc Adfer, Ymddiriedolaeth Oakdale, Sefydliad Bernard Sunley, Ymddiriedolaeth Albert Hunt, Cronfa Gymunedol Enfinium, Sported, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Sefydliad y Co-op a Sefydliad Banc Lloyds

IECHYD A LLES

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ariannu rolau Hwyluswyr Iechyd a Lles allweddol ym mhob Cyngor Gwirfoddol Sirol yng Ngogledd Cymru. Mae'r rôl hon yn cynnig cysylltiad strategol allweddol rhwng mudiadau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector.

Hefyd, mae gan CGLISFF dîm Rhagnodi Cymdeithasol, sy'n cydweithio gyda chydweithwyr statudol a thrydydd sector i gysylltu trigolion Sir y Fflint â gwasanaethau iechyd a lles yn y gymuned.

Yn 2025/26

Rydym yn cyfrannu tuag at nifer o bartneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Ar y cyd ag CSGW yn Wrecsam, rydym wedi hwyluso cyfarfodydd rhwydwaith Iechyd a Lles rheolaidd. Rydym yn dwyn ynghyd mudiadau trydydd sector a phartneriaid statudol (lleol, rhanbarthol a chenedlaethol) sy'n gweithio yn Sir y Fflint a Wrecsam ac sy'n ymddiddori mewn iechyd, gofal cymdeithasol a lles, ac yn cynnig cyfleoedd i rwydweithio a fforwm i drafod materion amserol a rhannu gwybodaeth a syniadau arfer da/gorau.

Yn dilyn llwyddiant ein rhwydweithiau Iechyd a Lles, rydym bellach yn cynnal ein rhwydwaith Babanod, Plant a Phobl Ifanc ar y cyd ag CSGW.

Tîm Rhagnodi Cymdeithasol CGLISFF

Bu CGLISFF yn cynnal gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol ers 2018.

Mae gennym dîm o 5 Ymarferydd Rhagnodi Cymdeithasol yn CGLISFF sy'n meddu ar wybodaeth eang o'r gwasanaethau cymorth yn y gymuned sydd ar gael inni fel trigolion Sir y Fflint.



O Ebrill y 1af 2025 hyd at Fawrth yr 31ain 2026 fe wnaeth y tîm Rhagnodi Cymdeithasol gefnogi 2,066 o drigolion Sir y Fflint (a'u gofalwyr ac aelodau ehangach o'r teulu yn aml) – gan gynnig sicrwydd iddyn nhw, mynd i'r afael â'r 'hyn sydd wir o bwys' a'u cyfeirio at wasanaethau cymorth/grwpiau diddordeb/gweithgareddau lles perthnasol.

O'r 2,066 o unigolion y bu inni eu cefnogi

- Roedd 12% yn wynebu unigrwydd ac ynysigrwydd
- Cafodd 41% eu cefnogi i fanteisio ar ddarpariaeth fwyd brys.

Mewn holiadur diweddar wedi'i ateb gan 218 sy'n derbyn ein gwasanaeth, dywedodd 100% eu bod yn fodlon gyda'r cymorth a ddarparwyd.

Mae ein tîm Rhagnodi Cymdeithasol yn derbyn atgyfeiriadau gan ystod eang o ffynonellau gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol, prosiectau cymunedol, teulu a ffrindiau, yn ogystal â hunan-atgyfeiriadau.

Rydym yn awyddus i ddatblygu ein gwaith allgymorth o ran Rhagnodi Cymdeithasol, er mwyn inni allu cynnig cymorth i fwy o aelodau'r gymuned mewn safleoedd anffurfiol. Mae manau cymunedol megis Caffi Isa ym Mynydd Isa a Meddygfeydd Meddygon Teulu eisoes wedi croesawu ein staff i gwrdd â thrigolion lleol.

Yn ystod Haf 2026, bu inni gomisiynu Adroddiad Gwerth Cymdeithasol llawn ar ein gwasanaeth Rhagnodi Cymdeithasol (i'w gyhoeddi ar ddechrau 2027) er mwyn dangos mwy o dystiolaeth o'r gwahaniaeth y mae ein gwasanaeth yn ei gyflawni.



"Mae'n wych bod pobl fel chi yno i gynnig cymorth i bobl fel fi."

"Mae'n braf derbyn galwad gan lais cyfeillgar ac rydw i wir yn gwerthfawrogi eich help"



Y FLWYDDYN MEWN LLUNIAU



Cronfa Ffyniant Gyffredin Sir y Fflint – Cronfa Allweddol Gymunedol

£353,077 o grantiau Cronfa Ffyniant Gyffredin wedi'u dosbarthu i fudiadau yn Sir y Fflint yn 2025/26

Ym mis Ebrill 2022, fe lansiodd Llywodraeth y DU fanylion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF). Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn disodli Cronfeydd Strwythurol y DU ar gyfer Llywodraeth y DU gyda'r nod o gynnig gwerth £2.6 biliwn o fuddsoddiad ledled y DU. Ymhlith amcanion y Gronfa Ffyniant Gyffredin mae

- Rhannu cyfleoedd a gwella gwasanaethau cyhoeddus
- Adfer ymdeimlad o gymuned, balchder lleol a pherthyn
- Grymuso arweinwyr lleol a chymunedau
- Hybu cynhyrchiant, cyflogau, swyddi a safonau byw drwy ddatblygu'r sector preifat



Helen Williams (Cadwyn Clwyd) and Shaun Darlington (FLVC)

Er mwyn cyflawni hyn, roedd gan gyllid Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU dair blaenoriaeth buddsoddi:

1. Cymuned a Lle
2. Cefnogi Busnesau Lleol
3. Pobl a Sgiliau



Roedd ymdrechion Cadwyn Clwyd ac CGLISFF i hyrwyddo'r gronfa, wedi'i hwyluso gan eu rhwydweithiau cryf yn y cymunedau lleol, yn eang ac yn effeithiol. Roedd y cymorth a ddarparwyd gan swyddogion yn ystod cyflawni'r prosiectau yn amlwg yn cael ei werthfawrogi gan y derbynwyr grantiau, a wnaeth ganmol eu harbenigedd, arweiniad a dealltwriaeth

Yorke Consulting, Chwefror 26



Fe ymunodd Sir y Fflint gyda Cadwyn Clwyd i gyflwyno cais Cronfa Ffyniant Gyffredin ar y cyd er mwyn darparu Cronfa Allweddol Gymunedol yn arbennig ar gyfer grwpiau'r Trydydd Sector. Datblygwyd grant cyfalaf a refeniw i gefnogi mannau cymunedol, byw carbon isel, mannau gwyrdd, gweithgareddau celfyddydau, diwylliannol a threftadaeth, modd i fanteisio ar chwaraeon a seilwaith.

Roedd 2025/26 yn flwyddyn bontio ar gyfer y rhaglen, ac fe ddosbarthodd Cronfa Allweddol Gymunedol Sir y Fflint grantiau gwerth £353,077 i 23 mudiad yn Sir y Fflint.

Dyma'r ymgeiswyr llwyddiannus yn 2025/26

Clwb Rygbi'r Wyddgrug
Cyngor Tref Treffynnon Pen Y Maes
Clwb Criced Pentre-Moch
Cofeb Ryfel Ffynnongroyw a Picton
Theatr Fach Hawkesbury
Neuadd Goffa a Chymdeithas Cymundeol Trelawnyd
Canolfan Bentred Ysceifiog
Sefdliad Cofeb Ryfel Rhydymyn
Cymdeithas Chwaraeon Argoed
Canolfan Gymundeol Hawkesbury
Neuadd Bentref Cilcain
Our Growing Space

Tŷ Clwb a Gerddi Cymunedol Yr Wyddgrug
Cegin Hwb Cymunedol PPD
Clwb Criced Yr Wyddgrug
Clwb Pêl-droed Tref Treffynnon
Cambrian Aquatics
Pafiliwn Cymunedol Pentre-Moch
Clwb Cymunedol a Chymdeithasol Y Groves
Canolfan Bentref Gwernymynydd
Tîm Rheoli Trap Bwcle
Clwb Llyngesol Glannau Dyfrdwy
Clwb Bowlio Aston

Cyllid Grant

Wedi'i weinyddu gan CGLISFF



Grantiau Cist Gymunedol

Cambrian Aquatics Cyf	£750.00
Clwb Bowlio Nercwys	£500.00
Clwb Pêl-droed Mynydd Isa	£1000.00
Clwb Criced Pontblyddyn	£500.00
Grŵp Treftadaeth	£500.00
Llaneurgain	
Côr Cilcain	£500.00
Grŵp Cymunedol	
Rhydymwyn a Hendre	£750.00
Clwb Chwaraeon Nannerch	£625.00
Eisteddfod	
Gadeirol Treuddyn	£300.00
Neuadd Goffa Sychdyn	£1000.00
Grŵp Chwarae Carmel	£343.40
Ymddiriedolaeth Gymunedol	
Glannau Dyfrdwy	£877.13
Clwb Ieuenctid Brychdyn	£458.65
Eye 2 Eye	£445.97
Gofal Plant	
Penyffordd a Ffynnongroyw	£931.60

Clwb Pêl-droed Iau Tref	£880.35
Shotton Unedig Cyngor Ar	
Bopeth Sir y Fflint	£750.00
Clwb Bowlio Coed-llai	£558.00
Clwb Sglefrio Rhew	
Cydamserol Glannau	
Dyfrdwy	£1000.00
Gwyl Daniel Owen	£500.00
Cadetiaid Môr Cei Connah	£938.25
Home-Start Sir y Fflint	£644.80
Clwb Bowlio Cilcain	£727.49
Fferm Gyfannol Cae Rhug	£930.36
Cymdeithas Hanesyddol	
Caeryws	£494.96
Clwb Pêl-droed Genethod	
a Merched Parc Penarlâg	£644.80
Sgiliau Traddodiadol Cyf	£262.50
Siop Gymunedol Cilcain	£640.11
Giddos Gift	£1000.00
Clwb Pêl-droed Sealand	
Spartans	£440.92


Grantiau dan Arweiniad Ieuenctid CGGC

Grŵp Saethyddiaeth,	£1000.00
Sgowtiaid Ardal Sir y Fflint	
Fferm Gyfannol Cae Rhug	£1000.00
Grŵp Panto Gwernymynydd	£1000.00
Gwella	£500.00
Menter Iaith Sir y Fflint a Wrecsam	£963.00
1125 CBC	£987.00



Sut caiff CGLLSFf ei ariannu

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar Fawrth yr 31ain 2026



Cyfanswm Incwm yn ystod 2025/26 **£608,227**

Gwariant 2025/26 a 2024/25

Costau Staff
Costau Safle
Costau CCB
Ffioedd Proffesiynol
Gwirfoddolwyr a Hyfforddiant
Yswiriant ac Indemnïaeth
Costau Llywodraethiant
Dosbarthu Grantiau

CYFANSWM

2026	2025
470,519	466,682
80,470	76,136
1,304	1,390
14,209	14,797
56	147
2,992	3,383
7,159	6,708
25,122	31,864
£601,831	£601,107

Cyfanswm gwariant yn ystod 2025/26 **£601,831**